Cofnodion cyfarfod 13 Chwefror 2024 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa am 7 yn yr hwyr		
PRESENNOL		
Eifion Williams	Nel Huws	
Cynog Prys	Emyr Gareth	
Eleri Wyn Thomas	Dafydd Huws	
Daniel Williams	Meleri Jones	
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
	Agorwyd y cyfarfod yn ffurfiol gan y Cadeirydd Eifion Williams. Cafwyd ymddiheuriadau gan Elen Gwenllïan, Elenid Glyn a Llŷr Evans.	
1.1	Ni chafwyd cyfraniad oddi wrth y cyhoedd.	
1.2	Diffyg graeanu Tafarngrisiau - derbyniwyd bod nifer o gwynion wedi bod i gyflwr Tafarngrisiau yn ystod y tywydd garw yn ddiweddar. Nid oes llawer gall y Cyngor i wneud ar gyfer y sefyllfa. Roedd graeanu wedi digwydd ond yn anffodus er mwyn iddo weithio mae'n ofynnol bod traffig yn gyrru arno. Roedd damweiniau wedi digwydd ar waelod yr allt i mewn i Ffordd Gaernarfon oherwydd y ffordd roedd y cerbydau yn cael eu gyrru.	
1.3	Rheoliadau ailgylchu newydd i fusnesau - cafwyd gwybodaeth oddi wrth Gyngor Gwynedd bod rheoliadau newydd Llywodraeth Cymru ar ailgylchu yn dod i rym ar y 6ed o Ebrill 2024. Mae'r rhain ar gyfer ymdrechu i ddod yn genedl ddiwastraff a lleihau allyriadau carbon. Nid yw Cyngor Gwynedd wedi cael cadarnhad oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru os yw mynwentydd yn cael eu heffeithio. Tafodwyd y mater a phenderfynwyd byddai'r Cyngor yn gwneud i ffwrdd a'r gwasanaeth i gludo gwastraff o'r fynwent erbyn Ebrill 2025 a bydd rhybudd o hyn yn cael ei roi ar giatiau'r Fynwent o ganol y flwyddyn hon.	**CLERC** **CLERC**
2.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Roedd nifer o'r aelodau gyda chysylltiad â'r cymdeithasau oedd wedi gwneud cais am gymorth ariannol ond nid oedd buddiant personol i'r un aelod.	
3.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL**	
3.1	Cyflwynwyd gwariant ac adroddiad ariannol mis Ionawr 2024 - derbyniwyd.	**CLERC**
3.2	Cyflwynwyd ceisiadau am gymorth ariannol 2024. Roedd Pwyllgor Cyllid y Cyngor wedi ystyried hwy ac wedi derbyn bod y ceisiadau yn cymwys. Rhoddwyd argymhellion y Pwyllgor Cyllid ymlaen i'r Cyngor. Phenderfynwyd derbyn yr argymhellion. Gweler isod am y penderfyniadau.	

Cymdeithas	Cais 2024	DYFARNIAD 2024
Y Goriad	200	200
Cyfeillion Ysgol Y Felinheli	900	900

	CPD Y Felinheli	dim Swm		400		
	CPD Merched y Felinheli	1000		1000		
	CPD Ieuenctid Y Felinheli	dim Swm		400		
	PARCH	500		500		
	Gŵyl y Felin	1000		1000		
	Pwyllgor Regatta	300		300		
	CIC Bethania	150		150		
	Rainbows	300		300		
	Guides	300		300		
	Brownies	300		300		
	Clwb yr Henoed	200		200		
	Bwyd Bendigedig	500		300		
	Cyfanswm	£	5,650.00	£	6,250.00	
4.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI**					
4.1	Cadarnhawyd cofnodion mis Ionawr 2024 yn rhai cywir.					**CLERC**
4.2	Toiledau - Y Clerc i gysylltu â Robinson's Bragdu'r Garddfon. Pan fydd hyn wedi ei wneud bydd y Cyngor wedyn yn gallu ymweld â'r Garddfon i sgwrsio a'r Rheolwr.					**CLERC**
4.3	Cynllun Rheoli Traffig - mae cysylltiad wedi ei wneud a'r Rhingyll Traffig a gobeithir dod o hyd i ddyddiad lle mae pawb yn rhydd i gyfarfod.					**CLERC**
4.4	Biniau Cae Peldroed Ffordd Lan y Môr. Y Clerc i wneud cysylltiad â Gofal Stryd Cyngor Gwynedd i edrych os oes modd bin ar y safle gan fod yr hen fin wedi ei roi a'r tân. Hefyd y Clerc i ofyn a oes modd newid bin mawr sydd gêr Safle Bws (Safle Moria) gyda'r un llai sydd er y siop.					
4.5	Materion Priffyrdd - dim ymateb wedi bod gan Adran Priffyrdd Gwynedd. Y Clerc i anfon at Bennaeth Priffyrdd. Mae mater o gyflwr Rhes Gwelfor wedi ei godi unwaith yn rhagor. Mae'r ffordd yma yn llwybr i'r Ysgol oherwydd ei fod yn fwy diogel ar gyfer cerddwyr; yn anffodus mae wyneb y ffordd mor rhydd mae llawer o blant yn llithro arno ac yn syrthio. Nid yw cerbydau yn gallu stopio ar y ffordd oherwydd y cerrig man sydd ar wyneb y ffordd ychwaith. Y Clerc i ofyn oes modd i'r ffordd gael ei hysgubo. Nid yw gwaith adfer y toriad yn y cyflenwad dŵr ger Chans wedi ei gwblhau hyd yma.					**CLERC**
4.6	Y Cynghorydd Daniel Williams i drefnu dyddiad ym mis Mawrth. Y Clerc i wneud ymholiadau a Gofal Stryd ar gyfer gweld os fyddai modd iddynt godi sbwriel sydd wedi ei gasglu hefyd os oes modd cael benthyg offer codi sbwriel ganddynt os yw offer y Cyngor Cymuned ddim yn ddigonol.					**DW CLERC**
4.7	Daeth gwybodaeth i'w law bod rhan o arian gwerthiant yr Eglwys a'r Ficerdy ar gael ar gyfer datblygiad Neuadd yr Eglwys. Y Clerc i gysylltu â'r Tad Dylan ar gyfer cael cyfarfod i drafod dyfodol Neuadd yr Eglwys.					**CLERC**
4.8	Cyflwr y Jetty - mae pryder wedi ei dderbyn ynglŷn â chyflwr y Jetty. Codwyd hefyd cyflwr y Slipway. Penderfynwyd bod y Clerc yn anfon at yr adrannau perthnasol gyda'r pryderon hyn.					**CLERC**

5.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
5.1	Rhif Cais : C24/0030/20/DT Lleoliad : 7, Gwel Y Môr Maes Y Felin, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4JB Bwriad : Estyniad deulawr ar ochor yr adeila **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
6.0	**CYLLID, CYFLOGAETH, PHOLISÏAU A GWEFAN**	
6.1	Gwaith ar y wefan yn parhau. Bydd angen gweithio tuag at gael polisi bioamrywiaeth yn fuan.	
7.0	**ASEDAU**	
	Dim i'w adrodd	
8.0	**LLWYBRAU CYHOEDDUS, LÔN LAS A PHRIFFYRDD**	
8.1	CAFWYD GWYBODAETH BOD CERRIG WEDI CWYMPO ODDI WRTH Y WAL AR LWYBR 16 UNWAITH YN RHAGOR. Y Clerc I anfon ymlaen at Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd. Hefyd mae wyneb Llwybr 17 o bryder y Cyngor. Codi'r Mater yma unwaith yn rhagor a'r Swyddog. Dywedwyd bod cerdded llwybr Afon Heulyn bron yn amhosib oherwydd ei gyflwr. Y Clerc i ddod a'r mater hwn i sylw Cyngor Gwynedd.	**CLERC**
8.2	Dywedwyd and oes unrhyw gynnydd wedi bod gan Gyngor Gwynedd ynglŷn â rhoi Golau Stryd ar ben Allt Pen Ceunant. Y Clerc i wneud cysylltiad et oar y mater.	
9.0	**NEUADD GOFFA A CHLOC**	
9.1	Cyfarfod pwyllgor y neuadd wedi cymryd lle. Ystyriwyd costau llogi'r neuadd a phenderfynwyd ar y canlynol: Costau Llogi ar gyfer parti plentyn £40 am bedair awr Costau Llogi ar gyfer rhywbeth arall £15 am yr awr gyntaf ac yna £12.50 am bob awr ychwanegol Costau llogi ar gyfer priodas (Brecwast neu barti) Bore Sadwrn hyd at hanner dydd ar y Sul £250 Bore Gwener hyd at hanner dydd ar y Sul £300. Bydd costau defnyddwyr arferol y Neuadd yn cael eu hystyried mewn cyfarfod arall. Mae ymholiadau yn cael eu gwneud ar gyfer prynu peiriant glanhau llawr y neuadd. Mae'r Cynghorydd Daniel Williams yn mynychu cynadleddau ar gyfer digarboneiddio'r Neuadd. Ystyriwyd hefyd edrych i mewn ar gyfer cyflwyno Hive i'r neuadd. Yn gyntaf mae faint o ynni sydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer neuadd ar hyn o bryd angen ei sefydlu. Mae clo'r bolard lleoliad parcio yn cael ei falu yn barhaus. Gobeithir edrych ar sut i arbed hyn. Ar hyn o bryd mae pin ar gyfer y clo wedi ei adnewyddu unwaith yn rhagor.	**DW**
10.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	
	Dim gwybodaeth wedi dod i lawr hyd yma. Y Clerc i anfon at y Swyddogion perthnasol.	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 9.30 yn y r hwyr.	
Llofnod:		**Dyddiad: 12/3/24**